
ystadegau ar gyfer cymru statistics for wales
Datganiad Ystadegol Cyntaf
Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Ystadegau cryno ar gyfer rhanbarthau economaidd Cymru: De-ddwyrain Cymru

**30 Mai 2019**
**SFR 38/2019**

Mae rhanbarth De-ddwyrain Cymru yn cynnwys awdurdodau lleol: Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg. Nod y datganiad hwn yw rhoi dadansoddiad ystadegol o ranbarth De-ddwyrain Cymru a thynnu sylw at wahaniaethau a all fodoli ledled y rhanbarth ar gyfer y naw pwnc dan sylw.




**Pwyntiau Allweddol**

- De-ddwyrain Cymru yw'r unig ranbarth yng Nghymru lle mae newid naturiol (y boblogaeth y gellir ei phriodoli i'r gwahaniaeth rhwng genedigaethau a marwolaethau) wedi bod yn gwbl gadarnhaol ers 1991-92, er bod lefel y newid naturiol wedi bod yn gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Y rhanbarth yma oedd â'r dosbarthiad mwyaf cyfartal o oedrannau o blith tri rhanbarth Cymru yn 2017, sydd i'r briodoli'n rhannol i nifer y myfyrwyr prifysgol sy'n byw yn yr ardal.
- Yn 2017, roedd 697,600 o bobl yn gweithio yn y rhanbarth, sef bron hanner yr holl gyflogaeth ledled Cymru.
- Mewn hanner o'r awdurdodau lleol yn y rhanbarth yn 2017, roedd cyfran y dynion a'r merched 18-64 oed heb gymwysterau yn uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru.
- Ar y cyfan, roedd lefelau nitrogen deuocsid yn uwch yn awdurdodau lleol De-ddwyrain Cymru nag mewn awdurdodau lleol yn y rhanbarthau eraill, ond mae'r lefelau hyn wedi bod yn gostwng dros amser.
- Gostyngodd enillion canolrifol cyflogeion llawn amser mewn hanner o'r awdurdodau lleol yn y rhanbarth rhwng 2017 a 2018.

## Am y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn un o bedwar allbwn ystadegol sy'n crynhoi ystadegau ar naw pwnc allweddol i Gymru a thri rhanbarth economaidd Cymru, fel y'u diffinnir yn y Cynllun Gweithredu Economaidd. Gyda'i gilydd, mae'r datganiadau hyn wedi cael eu paratoi i roi gwybodaeth ar gyfer cynllunio rhanbarthol, gan gefnogi Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

## Yn y datganiad hwn


| | |
|---|---|
| Poblogaeth | 2 |
| Iechyd | 12 |
| Cyflogaeth | 14 |
| Trafnidiaeth | 19 |
| Yr Amgylchedd | 22 |
| Ffyniant | 26 |
| Seilwaith Digidol | 29 |
| Tai | 33 |
| Diwylliant a Threftadaeth | 37 |
| Gwybodaeth am Ansawdd | 38 |

Ystadegydd: Rebecca Large ~ 0300 025 5050 ~ desg.ystadegau@llyw.cymru

Ymholiadau oddi wrth y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau cyhoeddus: 0300 025 5050 Twitter: @ystadegaucymru

## Poblogaeth

### Ffigur 1: Y boblogaeth yn Ne-ddwyrain Cymru, yn ôl awdurdod  lleol, 2017





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn 2017, roedd bron 1,525,000 o bobl yn byw[1] yn Ne-ddwyrain Cymru , gyda thua 24 y cant ohonynt yn byw yng Nghaerdydd. Hwn oedd yr awdurdod lleol mwyaf yn y rhanbarth ac yng Nghymru o ran poblogaeth o bell ffordd, gyda thua 363,000 o drigolion. Yr awdurdod â'r boblogaeth leiaf yn y rhanbarth hwn oedd Merthyr Tudful gyda phoblogaeth o tua 60,000.

[1] StatsCymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn

**Ffigur 2: Dwysedd y boblogaeth (unigolion fesul cilomedr sgwâr) yn Ne-ddwyrain Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2017**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Mesuriadau ardal safonol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Roedd gan Dde-ddwyrain Cymru ddwysedd poblogaeth[2] o 543 o bobl fesul cilomedr sgwâr yn 2017, sy'n golygu mai hwn oedd yr ardal fwyaf poblog o blith rhanbarthau Cymru.

Yn y rhanbarth, Caerdydd oedd yr awdurdod mwyaf poblog gyda 2,575 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Yr awdurdod lleol teneuaf ei boblogaeth oedd Sir Fynwy, gyda dwysedd poblogaeth o 110 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Rhwng 2007 a 2017, cynyddodd dwysedd y boblogaeth 5.4 y cant yn Ne-ddwyrain Cymru. Hon oedd y ganran uchaf a gofnodwyd yn y tri rhanbarth. Yr awdurdod lle y cafwyd y cynnydd mwyaf yn nwysedd y boblogaeth yn y rhanbarth ac yng Nghymru dros y cyfnod hwn oedd Caerdydd, sef 10.5 y cant. Blaenau Gwent oedd â'r gyfradd isaf, gyda dwysedd y boblogaeth yn gostwng 0.1 y cant rhwng 2007 a 2017.

Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Cyfrifiad 2011 (heb ei gyhoeddi) yn dangos bod poblogaeth y De-ddwyrain wedi crynhoi'n llwyr mewn aneddiadau "llai tenau", gyda 55 y cant o'r trigolion yn byw mewn aneddiadau gyda 25,000 neu fwy o drigolion.

[2] StatsCymru: Dwysedd y boblogaeth (unigolion fesul cilomedr sgwâr) yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn

**Ffigur 3: Dosbarthiad y boblogaeth yn Ne-ddwyrain Cymru, yn ôl oedran a rhyw, 2017**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dengys siâp cymharol unffurf y pyramid poblogaeth ar gyfer De-ddwyrain Cymru bod dosbarthiad yr oedrannau yn weddol cyfartal, y dosbarthiad[3] mwyaf cyfartal o oedrannau o blith y tri rhanbarth yng Nghymru yn 2017. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r nifer gymharol uchel o fyfyrwyr prifysgol sy'n byw yn yr ardal, yn enwedig yng Nghaerdydd.

Rhwng 1997 a 2017, mae cyfran y boblogaeth 65 oed a throsodd[4] wedi cynyddu o 16 y cant i 18 y cant, tra bod cyfran y boblogaeth 15 oed ac iau wedi gostwng o 22 y cant i 19 y cant. De-ddwyrain Cymru yw'r unig ranbarth yng Nghymru sydd â chyfran uwch o'r boblogaeth sy'n 15 oed ac iau nag sy'n 65 oed a throsodd.

[3] StatsCymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl rhyw a blwyddyn
[4] StatsCymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol ac oedran

**Ffigur 4: Newid canrannol yn y boblogaeth yn Ne-ddwyrain Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 1997-2017**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Cynyddodd poblogaeth y rhanbarth[5] 9.1 y cant rhwng 1997 a 2017. Fodd bynnag, mae'r newid yn y boblogaeth wedi amrywio rhwng awdurdodau lleol y rhanbarth dros y cyfnod hwn.

Lleihau a wnaeth y boblogaeth mewn pedwar o'r 10 awdurdod lleol yn y rhanbarth dros hanner cyntaf y cyfnod hwn, ond dim ond ym Mlaenau Gwent y gwelwyd twf negyddol yn y boblogaeth rhwng 2007-2017.

Yng Nghaerdydd y gwelwyd y gyfradd twf poblogaeth uchaf rhwng 1997 a 2017 (sef 18.0 y cant). Ym Merthyr Tudful y gwelwyd y newid mwyaf o ran twf y boblogaeth yn y cyfnodau 1997 i 2007 a 2007 i 2017, a newidiodd o gyfradd twf negyddol o -0.3 y cant i gyfradd twf gadarnhaol o 4.9 y cant. Twf cymedrig y boblogaeth yn awdurdodau lleol De-ddwyrain Cymru dros y cyfnod 2007 i 2017 oedd 7,742 o bobl. Roedd y ffigur hwn yn uwch na'r cymedr (sef 5,232 o bobl) oherwydd y gyfran uchel o dwf a oedd yn digwydd yng Nghaerdydd.

[5] StatsCymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn

**Ffigur 5: Elfennau newid yn y boblogaeth yn Ne-ddwyrain Cymru dros amser**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Gan edrych ar ddata sy'n dangos elfennau newid yn y boblogaeth[6] ledled De-ddwyrain Cymru, gwelwn ddarlun gwahanol i'r un a welir ledled Cymru gyfan ac yn y ddau ranbarth arall. Hwn yw'r unig ranbarth lle mae newid naturiol (y boblogaeth y gellir ei phriodoli i'r gwahaniaeth rhwng genedigaethau a marwolaethau) wedi bod yn gwbl gadarnhaol ers 1991-92, er bod lefel y newid naturiol wedi bod yn gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r data hefyd yn dangos bod lefelau mewnfudo wedi bod yn uwch na lefelau allfudo ers y cyfnod 2001-02. Drwy ddadansoddi'r data hyn ar lefel awdurdod lleol, gwelwn mai ym Mro Morgannwg y gwelwyd y newid net mwyaf yn y boblogaeth oherwydd ymfudo a newidiadau eraill rhwng 2016 a 2017, tra mai yng Nghasnewydd y gwelwyd y newid mwyaf yn y boblogaeth yn gyffredinol. Roedd newid yn y boblogaeth oherwydd ymfudo net a newidiadau eraill yn gadarnhaol ym mhob awdurdod yn y rhanbarth, sy'n golygu, ym mhob rhanbarth, fod mwy o bobl yn symud i mewn nag sy'n symud allan. Caerdydd oedd yr awdurdod lleol â'r lefel uchaf o newid naturiol yn 2016-17, yn y rhanbarth a Chymru, o bell ffordd, tra gwelwyd newid naturiol negyddol mewn pedwar o'r 10 awdurdod yn y rhanbarth, sy'n golygu bod nifer y marwolaethau yn fwy na nifer y genedigaethau. Yn Sir Fynwy y cofnodwyd y lefel uchaf o newid naturiol negyddol.

[6] StatsCymru: Cydrannau newid yn y boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol a chydran

**Ffigur 6: Y newid rhagamcanol yn y boblogaeth yn Ne-ddwyrain Cymru dros amser, yn ôl awdurdod lleol**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru

Rhagamcenir[7] y bydd poblogaeth De-ddwyrain Cymru yn tyfu ar gyfradd uwch na'r ddau ranbarth arall yn ystod y 10 a'r 20 mlynedd nesaf, gyda chynnydd rhagamcanol o 92,800 o bobl (neu 6.1 y cant) rhwng 2018 a 2038. Dengys y gyfres amser bod y twf rhagamcanol hwn yn y boblogaeth i'w briodoli'n bennaf i Gaerdydd, y rhagamcenir y bydd yn tyfu ar gyfradd o 9.9 y cant yn y 10 mlynedd nesaf ac 20.1 y cant erbyn 2038.


Mae'r ffigyrau hyn yn seiliedig ar brif amcanestyniadau poblogaeth. Er hyn, cynhyrchir nifer o amcanestyniadau amrywiadol sy'n darparu sefyllfaoedd eraill yn y dyfodol yn seiliedig ar dybiaethau gwahanol o gyfraddau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo yn y dyfodol. Nid yw'r rhain yn cynrychioli'r lefel uchaf nac isaf, ond maent yn dangos sut fyddai sefyllfa'r boblogaeth, er enghraifft, pe bai ffrwythlondeb yn gostwng yn is na'r hyn a dybir ar gyfer y prif amcanestyniad.

Ceir rhagor o wybodaeth am amrywiolion amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru, yn seiliedig ar ffigurau 2014, yn ymyl y datganiad Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru[8].

Ceir rhagor o wybodaeth am amrywiolion amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol[9].

7 StatsCymru: Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn
8 Llywodraeth Cymru: Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru (sail 2014)
9 SYG: Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol: bwletin ystadegol sail-2016 (Saesneg yn unig)

**Ffigur 7: Y newid canrannol yn y boblogaeth ragamcanol yn Ne-ddwyrain Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2018-2038**





Ffynhonnell: Amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru

Os bydd y tueddiadau presennol yn parhau, ceir twf negyddol ym mhoblogaeth Blaenau Gwent yn ystod y cyfnod hwn; gyda gostyngiad o 1.3 y cant yn y boblogaeth yn y 10 mlynedd nesaf a gostyngiad o 4.2 y cant yn yr 20 mlynedd nesaf.

Mae'r ystod a ddangosir ar y siart yn rhoi darlun llawer llai sefydlog sy'n dod i'r amlwg pan ystyriwn yr amcanestyniadau ar lefel awdurdod, a dim ond mewn pedwar o 10 awdurdod y rhanbarth y gwelir cyfradd twf poblogaeth uwch dros 20 mlynedd na dros 10. Golyga hyn, mewn chwe awdurdod yn Ne-ddwyrain Cymru, fod disgwyl i'r boblogaeth leihau rhwng 2028 a 2038. Gellid priodoli hyn, o bosibl, i ostyngiad yn nifer ragamcanol y genedigaethau yn yr ardaloedd hyn. Noder bod y data hyn yn seileidig ar yr amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol ac ni ddylid ystyried eu bod yn rhagolwg.

**Ffigur 8: Y newid canrannol yn y boblogaeth ragamcanol o bobl 65 a throsodd yn Ne-ddwyrain Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2018-2038 (yn seiliedig ar amcanestyniadau 2014)**





Ffynhonnell: Amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru

Ledled De-ddwyrain Cymru, rhagamcenir y bydd y boblogaeth o oedolion 65 oed a throsodd[10] yn tyfu ar gyfradd uwch na chyfanswm y boblogaeth dros y 10 mlynedd nesaf, a rhagamcenir y bydd 342,700 o bobl 65 oed a throsodd yn y rhanbarth erbyn 2028. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 19.9 y cant o gymharu â'r ffigur rhagamcanol ar gyfer 2018. Erbyn 2038, rhagamcenir y bydd y ffigur hwn yn cynyddu i 397,300, sef cynnydd o 39.1 y cant o gymharu â'r ffigur rhagamcanol ar gyfer 2018. Mae'r data hyn yn seileidig ar amcanestyniadau 2014 ar gyfer awdurdodau lleol, ac ni ddylid ystyried eu bod yn rhagolwg.

[10] StatsCymru: Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn

**Ffigur 9: Y gallu i siarad Cymraeg a nodwyd gan unigolion tair oed a throsodd yn Ne-ddwyrain Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2011**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Yn ôl data'r cyfrifiad[11], roedd 150,792 o siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yn y rhanbarth yn 2011. Roedd mwy o siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd nag mewn unrhyw awdurdod arall yn y rhanbarth, tra mai Merthyr Tudful oedd â'r nifer leiaf o siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, fel cyfran o'r bobl tair a throsodd, Rhondda Cynon Taf oedd yr awdurdod lleol â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg (12.3 y cant), tra mai Blaenau Gwent oedd â'r ganran isaf (7.8 per cent).

Y cyfrifiad yw'r ffynhonnell allweddol o wybodaeth am y nifer o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth hefyd yn casglu gwybodaeth am allu'r ymatebwyr i siarad Cymraeg a pha mor aml y maent yn ei defnyddio (dim ond gwybodaeth am bobl 16 oed a throsodd y mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ei chasglu tra bod yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn casglu gwybodaeth am bobl tair oed a throsodd fel y cyfrifiad). Yn hanesyddol, mae amcangyfrifon o allu pobl yn y Gymraeg o arolygon o gartrefi yn uwch na'r rhai a gynhyrchir gan y cyfrifiad ac nid yw'r union reswm dros hyn yn hysbys. Mae'n debygol bod gwahaniaethau yn y ffordd y caiff yr arolygon hyn a'r cyfrifiad eu cynnal yn effeithio ar yr amcangyfrifon. Ceir rhagor o wybodaeth mewn blog a gyhoeddwyd gan y Prif Ystadegydd[12] sy'n trafod data ar y Gymraeg.

[11] StatsCymru: Siaradwyr Cymraeg fesul Awdurdod lleol, rhyw a grwpiau oedran manwl, cyfrifiad 2011
[12] Diweddariad gan y Prif Ystadegydd: trafodaeth am ddata ar y Gymraeg sy'n deillio o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Dengys data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth[13], fod tua 20.5 y cant o drigolion De-ddwyrain Cymru tair oed a throsodd wedi dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2018. Hon oedd y gyfran isaf o blith y tri rhanbarth, ac eto roedd yn cyfateb i gynnydd o tua 3.1 pwynt canran o gymharu â data ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2008, ac mae'n cyfateb i'r nifer fwyaf o bobl sy'n siarad Cymraeg oherwydd y boblogaeth gymharol uchel yn y rhanbarth. Yng Nghaerdydd y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros y cyfnod mis Mehefin 2008 i fis Mehefin 2018, ond ni welwyd unrhyw gynnydd yn Nhorfaen dros yr un cyfnod. Mae canrannau rhanbarthol wedi'u cyfrifo ar sail ffigurau wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

**Ffigur 10: Cofrestriadau myfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn Ne-ddwyrain Cymru, 2016-17**




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr addysg uwch, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

Yn 2016-17, cafwyd bron 69,000 o gofrestriadau ar gyrsiau Addysg Uwch (AU)[14] yn Ne-ddwyrain Cymru, sy'n cyfateb i bron hanner yr holl gofrestriadau yng Nghymru. Prifysgol Caerdydd a gafodd y nifer fwyaf o gofrestriadau AU yn y rhanbarth ac yng Nghymru, sy'n cyfateb i bron 25 y cant o gyfanswm y cofrestriadau yng Nghymru. Mae'r data yn dangos bod crynodiad mawr o fyfyrwyr y rhanbarth yng Nghaerdydd. Noder bod y canrannau wedi'u cyfrifo ar sail ffigurau wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

[13] StatsCymru: Amcangyfrifon Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth o bobl 3 oed a throsodd sydd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a mesur

[14] StatsCymru: Cofrestriadau myfyrwyr yng Nghymru yn ôl sefydliad, lefel a dull astudio


## Iechyd

Mae disgwyliad oes yn fesur o ba mor hir, ar gyfartaledd, y gall pobl ddisgwyl byw gan ddefnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth a nifer y marwolaethau. Mae disgwyliad oes iach yn amcangyfrif nifer y blynyddoedd a dreulir mewn iechyd cyffredinol da iawn neu dda.

Dengys data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol[15], rhwng 2015 a 2017 yn Ne-ddwyrain Cymru, mai Sir Fynwy oedd yr awdurdod lleol â'r disgwyliad oes uchaf ar adeg geni a'r disgwyliad oes iach uchaf ar adeg geni ar gyfer dynion a merched. Blaenau Gwent oedd yr awdurdod â'r disgwyliad oes a'r disgwyliad oes iach isaf ar gyfer dynion a merched yn y rhanbarth a ledled Cymru.

De-ddwyrain Cymru oedd yr unig ranbarth yng Nghymru lle y gostyngodd disgwyliad oes iach ar gyfer dynion islaw 60 oed, gan wneud hynny mewn chwe awdurdod lleol ledled y rhanbarth. Mewn pedwar o awdurdodau lleol y rhanbarth, roedd disgwyliad oes iach merched hefyd islaw 60 oed. Ystod canran disgwyliad oes a dreulir mewn iechyd da yn yr awdurdodau lleol yn y rhanbarth oedd yr un uchaf o blith rhanbarthau Cymru, sef 10.9 pwynt canran ar gyfer dynion a 9.3 pwynt canran ar gyfer merched.

**Ffigur 11: Oedolion 16 oed a throsodd sy'n dangos 0 neu 1 ymddygiad ffyrdd iach o fyw, yn ôl awdurdod lleol, 2016-17 a 2017-18* (wedi'u safoni yn ôl oedran)**




*Cyfunwyd y cyfnodau 2016-17 a 2017-18 at ddibenion ansawdd data

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru


Ledled De-ddwyrain Cymru yn 2016-17 a 2017-18 wedi’u cyfuno, dangosodd 11 y cant o oedolion 16 oed neu drosodd 0 neu 1 o'r pum ymddygiad ffyrdd iach o fyw[16,17].

---

[15] SYG: Disgwyliad oes mewn cyflwr iach, y DU: 2015 i 2017 (Saesneg yn unig)
[16] Arolwg Cenedlaethol Cymru: iechyd poblogaethau
[17] Mae ymddygiadau iach yn cynnwys peidio ag ysmygu, yfed 14 o unedau neu lai o alcohol bob wythnos ar gyfartaledd, bwyta o leiaf 5 dogn o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol, cael mynegai màs y corff iach a bod yn gorfforol egnïol am o leiaf 150 o funudau yr wythnos flaenorol.

O ystyried awdurdodau lleol[18] yn y rhanbarth, Sir Fynwy oedd yr awdurdod lle y cofnodwyd y ganran isaf o lefelau isel o ymddygiadau ffyrdd iach o fyw (7 y cant), tra mai Merthyr Tudful a Chaerffili oedd â'r gyfran uchaf o oedolion 16 oed neu drosodd a ddangosodd 0 neu 1 ymddygiad iach (16 y cant). Hon hefyd oedd y gyfran uchaf a gofnodwyd ymhlith awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Ffigur 12: Oedolion 16 oed a throsodd a nododd eu bod mewn iechyd cyffredinol da neu dda iawn, yn ôl awdurdod lleol, 2016-17 a 2017-18* (wedi'i safoni yn ôl oedran)**




* Cyfunwyd y cyfnodau 2016-17 a 2017-18 at ddibenion ansawdd data

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

O fewn y rhanbarth, nododd 71 y cant o'r oedolion 16 oed a throsodd eu bod mewn iechyd cyffredinol da neu dda iawn[19] yn 2016-17 a 2017-18 wedi'u cyfuno. O ddadansoddi'r data yn ôl awdurdod lleol[20], gwelwn mai Sir Fynwy oedd â'r lefel uchaf o iechyd ia hunangofnodedig, gyda 76 y cant o oedolion 16 oed neu drosodd yn nodi eu bod mewn iechyd cyffredinol da neu dda iawn. Blaenau Gwent oedd yr awdurdod lleol â'r gyfran isaf yn y rhanbarth ac yng Nghymru, sef 64 y cant.

[18] Ar gyfer data awdurdodau lleol a gymerwyd o Arolwg Cenedlaethol Cymru (0 neu 1 ymddygiad ffyrdd iach o fyw ac iechyd da hunangofnodedig), nid yw pob gwahaniaeth rhwng awdurdodau lleol yn ystadegol arwyddocaol.

[19] Arolwg Cenedlaethol Cymru: iechyd poblogaethau

[20] Ar gyfer data awdurdodau lleol a gymerwyd o Arolwg Cenedlaethol Cymru (0 neu 1 ymddygiad ffyrdd iach o fyw ac iechyd da hunangofnodedig), nid yw pob gwahaniaeth rhwng awdurdodau lleol yn ystadegol arwyddocaol.


## Cyflogaeth



| Y gyfradd cyflogaeth (y boblogaeth 16-64 oed) | Y gyfradd diweithdra (y boblogaeth 16 oed a throsodd) | Y gyfradd anweithgarwch economaidd (heb gynnwys myfyrwyr) (y boblogaeth 16-64 oed) |
|---|---|---|
| 72.0% | 5.6% | 20.4% |

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r data yn ymwneud â'r flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2018

**Ffigur 13: Y gyfradd cyflogaeth yn Ne-ddwyrain Cymru, 1999-2018**




Nodiadau
Mae data ar gyfer 1999-2004 ar gyfer blwyddyn a ddaeth i ben 28 Chwefror. Mae data o 2005 ymlaen ar gyfer blwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin.
Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Y lefel cyflogaeth yw cyfanswm y bobl (16+ oed) sydd mewn cyflogaeth a'r gyfradd cyflogaeth[21] yw canran y boblogaeth (16-64 oed) sydd mewn cyflogaeth. O'r tri rhanbarth, De-ddwyrain Cymru oedd â'r lefel cyflogaeth uchaf yng Nghymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2018, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod ganddi boblogaeth uwch na'r ddau ranbarth arall. Fodd bynnag, roedd yn cynnwys dau o'r pum awdurdod lleol â'r cyfraddau cyflogaeth isaf yng Nghymru. Gyda 177,300 o bobl mewn gwaith, Caerdydd oedd â'r gyfradd cyflogaeth uchaf yng Nghymru, tra mai Merthyr Tudful oedd â'r lefel isaf, gyda dim ond 27,800 o bobl mewn gwaith. Ers 2001, mae cyfradd cyflogaeth y rhanbarth wedi cynyddu 5.4 pwynt canran, er bod y gyfradd cyflogaeth wedi cynyddu 15.4 pwynt canran ym Merthyr Tudful, sef y newid mwyaf yn yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru dros y cyfnod hwn.

[21] StatsCymru: Cyfradd gyflogaeth yn ôl ardal leol yng Nghymru, blwyddyn a rhyw


Y lefel diweithdra yw cyfanswm y bobl sy'n ddi-waith a'r gyfradd diweithdra[22] yw canran y boblogaeth economaidd weithgar sy'n ddiwaith (gan ddefnyddio diffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol o ddiweithdra). Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2018, y gyfradd diweithdra yn Ne-ddwyrain Cymru oedd 5.6 y cant, sef gostyngiad o 0.1 pwynt canran ers 2001. Cyfradd diweithdra Blaenau Gwent a welodd y newid mwyaf sylweddol yn ystod y cyfnod hwn, gan ostwng 2.9 pwynt canran ers 2001. Yn y cyfamser, Rhondda Cynon Taf oedd â'r gyfradd diweithdra uchaf yng Nghymru, sef 7.1 y cant.

Y gyfradd anweithgarwch economaidd[23] yw canran y boblogaeth nad yw'n gweithio ac nad yw'n chwilio am waith nac ar gael i weithio. Mae pobl economaidd anweithgar yn cynnwys pobl sy'n gofalu am y teulu a/neu'r cartref, pobl sydd wedi ymddeol a phobl â salwch neu anabledd. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 30, y gyfradd anweithgarwch economaidd yn Ne-ddwyrain Cymru 20.4 y cant, sef gostyngiad o 6.6 pwynt canran o gymharu â 2001. Roedd y newid hwn ychydig yn fwy na'r newid a welwyd ledled Cymru. Cyfradd anweithgarwch economaidd Merthyr Tudful a welodd y newid mwyaf sylweddol yn ystod y cyfnod hwn, gan ostwng 15.8 pwynt canran ers 2001.

Ceir rhagor o wybodaeth ar ystadegau economegol rhanbarthol ym Mhrofiliau rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd Llywodraeth Cymru.[24]

[22] StatsCymru: Cyfraddau diweithdra ILO yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn
[23] StatsCymru: Cyfraddau anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) yn ôl ardal leol yng Nghymru a blwyddyn
[24] Llywodraeth Cymru: Proffiliau rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd

**Ffigur 14: Cyflogaeth yn y gweithle, yn ôl awdurdod lleol, 2017**




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Fusnes (BRES), y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Dengys data cyflogaeth yn y gweithle[25][26], yn 2017, fod 697,600 o bobl yn gweithio yn y rhanbarth, sef bron hanner yr holl gyflogaeth ledled Cymru. Lefel gyfartalog cyflogaeth yn 10 awdurdod lleol y rhanbarth oedd 69,800. Er mai hon yw'r lefel uchaf ymhlith y tri rhanbarth, mae sgiw negyddol iddi oherwydd y gyfran uchel o gyflogaeth yng Nghaerdydd. Mae'r lefel ganolrifol ledled y rhanbarth, sef 53,400, islaw lefel ganolrifol rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru (59,900 person).

Yn y sector Gwybodaeth a chyfathrebu y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y gweithwyr rhwng 2007 a 2017, mewn termau canrannol, tra mai yn y sector Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth y gwelwyd y newid mwyaf yn lefel cyflogaeth, a sicrhaodd 24,500 o bobl ychwanegol. Yn y sector Adeiladu y gwelwyd y gostyngiad mwyaf, mewn termau canrannol. Fodd bynnag, wrth ystyried nifer y gweithwyr, y sector Cyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai a bwyd a ostyngodd fwyaf dros y cyfnod hwn yn y rhanbarth a ledled Cymru, gan golli tua 10,400 o weithwyr ledled De-ddwyrain Cymru. Noder bod newidiadau canrannol wedi'u cyfrifo ar sail data wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

[25] StatsCymru: Cyflogaeth yn y gweithle yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a diwydiant eang

[26] Cesglir data cyflogaeth yn y gweithle gan fusnesau drwy Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Fusnes (BRES), ac mae'n canolbwyntio ar ddata cyflogaeth a chyflogeion. Mae hyn yn cyferbynnu â data'r Arolwg o'r Gweithlu a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, a ddaw o ddata a gesglir yn bennaf oddi wrth breswylwyr cartrefi preifat.

**Ffigur 15: Y newid ym mhoblogaethau awdurdodau lleol yn Ne-ddwyrain Cymru o ganlyniad i bobl yn cymudo i mewn i'r rhanbarth ac allan ohono, 2017**





Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn gyffredinol, y newid net yn nifer y gweithwyr ledled y rhanbarth oedd -19,600, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cymudo allan o'r rhanbarth nag sy'n cymudo i mewn i'r rhanbarth neu ar draws y rhanbarth. Gellir priodoli hyn i raddau helaeth i weithwyr sy'n cymudo ar draws y ffin[27] i ardaloedd megis Bryste. Noder bod newidiadau net a data ar gyfer y rhanbarthau wedi'u cyfrifo ar sail data wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

Dengys data o 2017 fod y newid net yn y boblogaeth o weithwyr[28] yn negyddol mewn wyth o ddeg awdurdod lleol y rhanbarth, sy'n golygu, yn yr awdurdodau hyn, fod mwy o bobl yn cymudo allan o'r awdurdod i fynd i'r gwaith nag sy'n cymudo i mewn iddo o awdurdodau eraill. Caerdydd, sef yr awdurdod lleol mwyaf poblog yn y rhanbarth, a welodd y mewnlifiad mwyaf o weithwyr o awdurdodau lleol eraill, tra gwelodd yr ail awdurdod lleol mwyaf poblog, sef Rhondda Cynon Taf, yr all-lif mwyaf o weithwyr.

[27] StatsCymru: Patrymau cymudo manwl yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru
[28] StatsCymru: Patrymau cymudo yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru a mesur

**Ffigur 16: Pellter cyfartalog teithiau i'r gwaith (km) gan weithwyr 16-74 oed yn 2011, yn ôl yr awdurdod lleol lle maent yn preswylio**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dengys data Cyfrifiad 2011[29], ar gyfartaledd, fod trigolion mewn gwaith 16-74 oed ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth, ac eithrio yn Sir Fynwy a Phen-y-bont ar Ogwr, yn cymudo ymhellach i'r gwaith na chyfartaledd Cymru. Trigolion Caerdydd oedd â'r teithiau cymudo byrraf yng Nghymru, ar gyfartaledd.


Fel yng ngweddill Cymru, dengys data 2018[30] fod gan y mwyafrif helaeth o fusnesau yn Ne-ddwyrain Cymru lai na 10 cyflogai. Roedd cyfran y microfusnesau yn Ne-ddwyrain Cymru yn is nag yn unman arall yng Nghymru, tra mai cyfran y busnesau mawr oedd yr un uchaf o blith y tri rhanbarth. Merthyr Tudful oedd â'r gyfran uchaf o fusnesau mawr, sef 5.4 y cant. Mae canrannau yn seiliedig ar ddata wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd..

Dengys data ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2017[31], mewn pump o'r 10 awdurdod lleol yn y rhanbarth fod cyfran y dynion a'r merched 10-64 oed heb gymwysterau yn uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru, ac ym Merthyr Tudful, y ganran oedd 16.4 y cant, sef yr un uchaf yng Nghymru. Yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Sir Fynwy roedd canran y dynion a'r merched 16-64 oed oedd â chymwysterau hyd at NQF lefel 2 neu'n uwch yn fwy na'r ffigur ar gyfer Cymru, sef 78.5 y cant. Roedd y tri awdurdod lleol hyn hefyd ymhlith y rhai â'r gyfran uchaf o ddynion a merched 16-64 oed â chymwysterau hyd at NQF lefelau 4-6 a 7-8 yng Nghymru.

[29] SYG: Dadansoddiad Cyfrifiad 2011, Pellter a deithiwyd i'r gwaith (Saesneg yn unig)
[30] StatsCymru: Mentrau yn ôl diwydiant (ISC2007), band maint ac ardal
[31] StatsCymru: Lefel uchaf o gymhwyster sydd gan oedolion o oedran gweithio yn ôl awdurdod lleol

# Trafnidiaeth

## Ffigur 17: Seilwaith Trafnidiaeth yn Ne-ddwyrain Cymru




Ffynhonnell: Arolwg Ordnans


Mae seilwaith trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yn cynnwys rhan o draffordd yr M4 a mwy o orsafoedd rheilffordd nag yn y rhanbarthau eraill yng Nghymru. Yn y rhanbarth hefyd ceir tri o naw porthladd Cymru ac un o'r ddau faes awyr yng Nghymru (mae'r llall ar Ynys Môn).

Mae ymchwil i gyflymder cyfartalog cerbydau ar yr M4[32] yn dangos bod yr M4 drwy Gasnewydd â chyflymder cyfartalog isel yn ystod adegau prysur i'r ddau gyfeiriad rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2016. Cofnodwyd cyflymder cyfartalog araf tua'r dwyrain ym Mro Morgannwg yn ystod y bore, sy'n adlewyrchu traffig cymudwyr yn anelu am Gaerdydd. Yn Sir Fynwy roedd cyflymder cyfartalog araf tua'r gorllewin, o bosib o ganlyniad i doll Ail Groesfan Hafren, a symudwyd yn Rhagfyr 2018.

Roedd cyflymder cyfartalog o dan 60 mya yn aml ar yr A48(M) yn ystod adegau prysur. Roedd yr A48(M) tua'r gorllewin yn gweld cyflymder cyfartalog is na 50 mya yn gyson yn ystod adegau prysur y bore.

[32] Llywodraeth Cymru: Cyflymder cerbydau ar draffyrdd yng Nghymru: Ebrill i Mehefin 2016

**Ffigur 18: Dulliau o deithio i'r gwaith a ddefnyddir gan drigolion cyflogedig De-ddwyrain Cymru rhwng 16 a 74 oed, 2011**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dengys data'r Cyfrifiad o 2011[33], o'r gweithwyr 16-74 oed a oedd yn byw yn Ne-ddwyrain Cymru, fod 74.3 y cant yn teithio i'r gwaith yn y car, mewn fan neu ar feic modur, sgwter neu foped. Mae hyn yn cyfateb i tua 488,000 o bobl ledled y rhanbarth. Roedd 12.0 y cant (79,000 o bobl) yn teithio i'r gwaith ar droed neu ar feic. Roedd 8.8 y cant (58,000 o bobl) yn teithio i'r gwaith ar drên neu mewn bws, bws mini neu goets.

Yn 2017-18, ledled De-ddwyrain Cymru a ledled Cymru, oedolion 16 oed neu drosodd ym Mro Morgannwg oedd fwyaf tebygol o gerdded am fwy na 10 munud fel dull teithio[34], gyda 78 y cant yn gwneud hynny o leiaf unwaith y mis. Blaenau Gwent oedd yr awdurdod lleol roedd hyn yn lleiaf tebygol o ddigwydd (49 y cant). Blaenau Gwent hefyd oedd â'r ganran isaf (1 y cant) o oedolion 16 oed neu drosodd, yn y rhanbarth ac yng Nghymru, a oedd yn defnyddio beic fel dull teithio o leiaf unwaith y mis dros yr un cyfnod. Yr awdurdod lleol â'r ganran uchaf o bobl a oedd yn defnyddio beiciau yn rheolaidd oedd Caerdydd (17 y cant).


Yn Ne-ddwyrain Cymru yn 2016-17, Torfaen a Chaerffili oedd yr awdurdodau lleol lle roedd y disgyblion fwyaf tebygol o deithio i'r ysgol uwchradd yn y car (38 y cant yr un). Mewn pedwar awdurdod lleol yn y rhanbarth, roedd mwy na 40 y cant o'r plant yn cerdded ar eu pen eu hunain neu gyda phlant eraill, ac roedd llai na 50 y cant o'r disgyblion ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth y defnyddio bws ysgol. De-ddwyrain Cymru oedd yr unig ranbarth lle roedd hyn yn wir. Gan edrych ar seilwaith cyhoeddus, nid oedd trenau yn cael eu defnyddio fel arfer i fynd i'r ysgol yn y rhanbarth, ond roedd bysiau lleol yn cael eu defnyddio gan 22 y cant o'r disgyblion ysgol uwchradd yn Nhorfaen.

Gan edrych ar ddisgyblion ysgol gynradd yn y rhanbarth dros yr un cyfnod, disgyblion Merthyr Tudful oedd fwyaf tebygol o deithio yn y car (61 y cant) a disgyblion Pen-y-bont ar Ogwr oedd lleiaf tebygol o wneud hynny (39 y cant). O ran cerddwyr, yng Nghaerdydd y cofnodwyd y gyfran uchaf (58 y cant) ac ym Merthyr Tudful roedd y gyfran isaf (36 y cant) .

---

[33] Nomis, SYG: Trafnidiaeth i'r gwaith (Tabl QS701EW) (Saesneg yn unig)
[34] Llywodraeth Cymru: Teithio Llesol: cerdded a beicio (Ebrill 2017 i Mawrth 2018)

**Ffigur 19: Teithiau trên a wnaed yn Ne-ddwyrain Cymru dros amser, yn ôl awdurdod lleol**




Ffynhonnell: Tueddiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol, Proffiliau Defnyddwyr Rhanbarthol, Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd


Ledled De-ddwyrain Cymru, gwnaed bron 17.3 miliwn o deithiau trên[35] yn 2016-17, sef cynnydd o 5.5 miliwn o gymharu â 2006-07. Dengys Ffigur 19, ar lefel awdurdod lleol, mai yng Nghaerdydd y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y teithiau o ran nifer. Fodd bynnag, Merthyr Tudful oedd yr awdurdod lleol lle y cofnodwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y teithiau mewn termau canrannol, gyda chynnydd o 82.1 y cant rhwng 2006-07 a 2016-17. Dechreuodd a/neu gorffennodd 50.6 o'r holl deithiau trên yn Ne-ddwyrain Cymru yn 2016-17 yng Nghaerdydd.

Yn 2016-17, roedd 95 o orsafoedd rheilffordd[36] yn Ne-ddwyrain Cymru. O'r rhain, ystyriwyd bod 15 ymhlith yr 20 o orsafoedd prysuraf yng Nghymru o ran nifer y mynediadau a'r ymadawiadau. Yng ngorsaf Caerdydd Canolog y cofnodwyd 24 y cant o holl fynediadau ac ymadawiadau gorsafoedd yng Nghymru.

[35] StatsCymru: Teithiau rheilffyrdd gan deithwyr fesul Awdurdod Lleol a blwyddyn
[36] Llywodraeth Cymru: Defnydd gorsafoedd rheilffordd (Ebrill 2016 i Mawrth 2017)

## Yr Amgylchedd

### Ffigur 20: Arfordir Treftadaeth ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn Ne-ddwyrain Cymru





Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn Ne-ddwyrain Cymru, mae arfordir Morgannwg wedi'i ddynodi'n Arfordir Treftadaeth[37] er mwyn ei ddiogelu rhag datblygiadau ansensitif. Mae'r rhanbarth hefyd yn gartref i ran o Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)[38] Aber Afon Hafren. Diben y rhain yw diogelu rhywogaethau adar sydd naill ai'n brin neu'n agored i niwed neu sydd, yn achos adar mudol, yn ymweld ag arfordiroedd Cymru yn rheolaidd.

[37] Lle: Arfordir Treftadaeth
[38] Lle: Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig

**Ffigur 21: Amgylchedd Naturiol Dynodedig yn Ne-ddwyrain Cymru**




Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae amgylchedd naturiol dynodedig De-ddwyrain Cymru yn cynnwys rhannau o Barc Cenedlaethol[39] Bannau Brycheiniog, yn ogystal â rhannau o Ddyffryn Gwy, sydd wedi'i ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AOHNE)[40]. Mae'r rhanbarth hefyd yn gartref i 14 o barciau gwledig.

## Ansawdd Aer

Ar y cyfan, roedd lefelau nitrogen deuocsid[41] yn uwch yn awdurdodau lleol De-ddwyrain Cymru nag mewn awdurdodau lleol yn y rhanbarthau eraill, ond mae'r lefelau hyn wedi bod yn gostwng dros amser.


Caerdydd oedd â'r crynodiad mwyaf o nitrogen deuocsid yn yr aer yn y rhanbarth yn 2017 (sef 17 µg/m$^3$), a Blaenau Gwent, ynghyd â Merthyr Tudful a Sir Fynwy, oedd â'r crynodiad lleiaf (sef 8 µg/m$^3$). Mae'r crynodiad a nodwyd wedi lleihau ym mhob awdurdod lleol ledled y rhanbarth ers 2007, a lleihaodd 4 µg/m$^3$ yng Nghaerdydd rhwng 2016 a 2017, sy'n fwy nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru.

39 Lle: Parciau Cenedlaethol
40 Lle: Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
41 StatsCymru: Dangosyddion Ansawdd Aer, fesul Awdurdod Lleol

## Ynni

Roedd capasiti o 786 megawat (MW) o ynni carbon isel[42] yn y rhanbarth yn 2017, sy'n cyfateb i 21 y cant o gyfanswm Cymru. Rhondda Cynon Taf oedd â'r capasiti ynni carbon isel mwyaf yn y rhanbarth yn ystod y cyfnod hwn, gyda chapasiti uwch na Thorfaen, Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Casnewydd, Caerdydd a Chaerffili gyda'i gilydd. Roedd 95 y cant o'r 24,800 o brosiectau ynni carbon isel yn y rhanbarth ar gyfer ynni solar (ffotofoltäig neu thermol).[43]

**Ffigur 22: Trin gwastraff trefol yn Ne-ddwyrain Cymru**





Ffynhonnell: WasteDataFlow, Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn 2017-18, lefel y gwastraff trefol awdurdodau lleol[44] a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio oedd 62 y cant yn Ne-ddwyrain Cymru, o gymharu â 52 y cant yn 2012-13, sef y flwyddyn gynharaf y mae data y gellir eu cymharu'n uniongyrchol ar gael ar ei chyfer. Ym Mlaenau Gwent y cofnodwyd y gyfradd ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio isaf yn y rhanbarth a ledled Cymru (sef 56 y cant) yn 2017-18. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr y cofnodwyd y gyfradd uchaf yn y rhanbarth yn ystod y cyfnod hwn (sef 69 y cant).

Mae cyfanswm y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi[45] wedi gostwng 37 pwynt canran ers 2012-13. Anfonwyd 3 y cant o'r gwastraff a gynhyrchwyd/casglwyd i safleoedd tirlenwi yn 2017-18, o gymharu â 40 y cant yn 2012-13.

[42] StatsCymru: Cynhyrchu Ynni Carbon Isel yn ôl Awdurdod Lleol a Technoleg
[43] (r) Adolygwyd y paragraph hwn ar 23/08/2019
[44] StatsCymru: Cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio blynyddol gan awdurdod lleol
[45] StatsCymru: Rheolaeth o wastraff blynyddol gan ddull rheoli

**Ffigur 23: Gwastraff gweddilliol blynyddol cartrefi a gynhyrchwyd y pen (kg) yn Ne-ddwyrain Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2017-18**




Ffynhonnell: WasteDataFlow, Cyfoeth Naturiol Cymru

Amrywiai gwastraff gweddilliol blynyddol cartrefi[46] a gynhyrchwyd y pen ledled De-ddwyrain Cymru yn 2017-18 o 141kg ym Mhen-y-bont ar Ogwr i 241kg ym Mlaenau Gwent. Yn Rhondda Cynon Taf y gwelwyd y newid mwyaf mewn gwastraff gweddilliol cartrefi a gynhyrchir y pen ers 2012-13, sef gostyngiad o 32 y cant, neu 91kg y pen. Yn y cyfamser, cynhyrchodd trigolion Blaenau Gwent 9kg yn fwy o wastraff gweddilliol cartrefi, ar gyfartaledd, yn 2017-18 nag yn 2012-13.

[46] StatsCymru: Nifer blynyddol o wastraff cartrefi wedi'u cynhyrchu pob person (cilogramau) gan awdurdod lleol

## Ffyniant

Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) yw'r gwerth a gynhyrchir gan unrhyw uned sy'n ymwneud â chynhyrchu nwyddau a gwasanaethau. Mae GYG y pen yn ffordd ddefnyddiol o gymharu rhanabarthau o wahanol faint. Fodd bynnag, nid yw'n mesur cynhyrchiant rhanbarthol.

Dylid nodi bod ffigurau GYG rhanbarthol yn ddarostyngedig i gyfyngiadau, gan fod modd iddynt gael eu heffeithio gan ffactorau fel cymudo rhwng rhanbarthau, a'r demograffeg a mathau o swyddi gwahanol mewn rhanbarthau. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn erthygl blog[47] y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Hefyd, sylwer bod y ffigurau rhanbarthol yn cael eu dosrannu o gyfansymiau cenedlaethol ar sail dangosyddion rhanbarthol. Mae'r dangosyddion rhanbarthol, sy'n cynnwys data gweinyddol ac arolygon, yn cael eu hystyried fel y ffynonellau mwyaf priodol, ond gallant arwain at ddyraniadau rhanbarthol amherffaith.

Yn Ne-ddwyrain Cymru, GYG y pen[48] oedd £20,863 yn 2017[49]. Hwn oedd y gwerth uchaf o blith tri rhanbarth Cymru, ond mae'n is na gwerth y DU. Caerdydd oedd yr unig awdurdod lleol yn y rhanbarth lle roedd GYG y pen yn uwch na gwerth y DU.

Ledled y rhanbarth, cynyddodd GYG y pen 2.8 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a 72.5 y cant ers 1999. Cynyddodd GYG y pen Caerdydd 79.4 y cant rhwng 1999 a 2017. Roedd hyn yn fwy nag unrhyw un o'r awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth. Yn y cyfamser, ym Mro Morgannwg y gwelwyd yr unig ostyngiad yn GYG y pen o gymharu â 2016, sef 3.4 y cant. Ym Mro Morgannwg hefyd y cafwyd y cynnydd lleiaf yn GYG y pen o gymharu â 1999, sef 57.3 y cant.

Mae Incwm Gwario Gros Aelwydydd[50] yn amcangyfrif o'r swm o arian sydd gan aelwydydd i'w wario neu ei gynilo. Yn Ne-ddwyrain Cymru, GYG y pen oedd £15,696 yn 2016. Ledled y rhanbarth, cynyddodd GDHI y pen 1.1 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a 58.8 y cant ers 1999.


Ledled y rhanbarth, roedd enillion gros canolrifol yr wythnos[51] cyflogeion llawn amser ar eu huchaf ym Mhen-ybont ar Ogwr (£544.00), ac ar eu hisaf ym Merthyr Tudful (£478.40), er gwaethaf cynnydd o 12 y cant mewn enillion o gymharu â 2017, sy'n cyfateb i £51.10. Nid oedd y cynnydd Merthyr Tudful yn adlewyrchu'r rhanbarth cyfan o bell ffordd, gydag enillion canolrifol cyflogeion llawn amser yn gostwng yn hanner awdurdodau lleol y rhanbarth rhwng 2017 a 2018. Ym Mlaenau Gwent y gwelwyd y gostyngiad mwyaf nodedig, gydag enillion canolrifol cyflogeion llawn amser yn gostwng 2.7 y cant, neu £13.40, yr wythnos. Ledled y rhanbarth, enillion gros canolrifol yr wythnos cyflogeion llawn amser oedd £520.00 yn 2018.

---

[47] National Statistical, SYG: Mind the gap: why the UK might not be the most regionally unequal country (Saesneg yn unig)
[48] StatsCymru: Gwerth Ychwanegol Crynswth yn ôl mesur, rhanbarth economaidd yng Nghymru a blwyddyn
[49] Y data a gynhwyswyd yw'r dull gweithredu cytbwys ar gyfer GYG
[50]StatsCymru: Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario yn ôl mesur, rhanbarth economaidd yng Nghymru a blwyddyn
[51] StatsCymru: Enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrif) yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn (£)

Mae data'r SYG[52] yn amcangyfrif cyfran y gweithwyr sy'n ennill llai na'r cyflog byw (sef £8.75 yn 2018, fel y'i diffinnir gan y Living Wage Foundation). Yn 2018, dengys y canlyniadau, ledled y rhanbarth, fod ystod o 10.9 pwynt canran rhwng yr awdurdodau lleol. Yng Nghaerffili y cofnodwyd y ganran isaf, sef 20.5 y cant, a'r ganran uchaf oedd 31.4 y cant ym Mlaenau Gwent. Noder bod yr amcangyfrifon hyn ar gyfer yr awdurdodau lleol yn amrywio o ran eu hansawdd, sy'n bennaf yn adlewyrchu maint y samplau.

**Ffigur 24: Disgyblion 5-15 oed a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn Ne-ddwyrain Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2017-18**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru

Yn Ne-ddwyrain Cymru, roedd 18.6 y cant o ddisgyblion 5-15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim[53] yn 2017/18, sy'n cyfateb i ostyngiad o hanner pwynt canran dros y 10 mlynedd flaenorol. Ym Mlaenau Gwent y cofnodwyd y gyfradd uchaf yn y rhanbarth (sef 22.7 y cant), ac yn Sir Fynwy y cofnodwyd yr un isaf (sef 10.9 y cant). Ym Merthyr Tudful y gwelwyd y newid mwyaf rhwng 2007/08 a 2017/18, gyda chanran y plant a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gostwng 4.4 pwynt canran.

[52] SYG: Arolwg blynyddol o oriau ac enillion (ASHE) - Amcangyfrifon nifer a chyfran o swyddi gyda thâl wrth yr awr sy'n is na'r gyflog byw, fesul daearyddiaeth gwaith, awdurdod lleol ac etholaeth seneddol, y DU, Ebrill 2017 ac Ebrill 2018 (Saesneg yn unig)
[53] StatsCymru: Disgyblion 5-15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a blwyddyn

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)[54] yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach. Ei nod yw dangos yr ardaloedd bach hynny lle mae'r crynodiadau uchaf o nifer o wahanol fathau o amddifadedd. Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid eu disgwyl o bosib yn ein cymdeithas. Gall hyn fod yn nhermau nwyddau materol neu allu unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

Mae rhanbarth y De-ddwyrain yn cynnwys 939 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is. Mae hyn yn 49 y cant o'r holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru.

Wrth edrych ar yr 191 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar draws Cymru yn 2014 - sef y 10 y cant mwyaf difreintiedig, mae 127 ohonynt yn y De-ddwyrain. Mae hwn yn cyfateb i 14 y cant o’r holl Ardaloedd Gynnyrch Ehangach Haen Is yn y rhanbarth, a 66 y cant o’r 10 y cant mwyaf difreintiedig ledled Cymru.

Sylwch y bydd MALIC yn cael ei ddiweddaru ym mis Tachwedd 2019, gan gynnwys offeryn ar-lein i roi rhagor o fanylion ystadegol fesul rhanbarth economaidd.

## Busnesau


Yn Ne-ddwyrain Cymru, roedd 91.4 y cant o'r busnesau a sefydlwyd yn 2012[55] yn dal i fodoli ar ôl eu blwyddyn gyntaf, ac roedd 42.4 y cant yn dal i weithredu ar ôl pum mlynedd. Roedd gan fusnesau a sefydlwyd ym Mlaenau Gwent gyfradd goroesi o 96 y cant yn y flwyddyn gyntaf, ond dim ond 36 y cant a oedd yn dal i fodoli ar ôl pum mlynedd. Yn y cyfamser, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, roedd 11.3 y cant o'r busnesau a sefydlwyd yn 2012 wedi mynd i'r wal cyn diwedd eu blwyddyn gyntaf. Mae canrannau wedi'u cyfrifo ar sail ffigurau wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

---

54 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
55 StatsCymru: Business Survival Rates by area and survival year

## Seilwaith Digidol

### Ffigur 25: Canran y cartrefi a'r busnesau yn Ne-ddwyrain Cymru a allai gael gwasanaeth band eang cyflym iawn neu wibgyswllt, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2018





Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Yn Ne-ddwyrain Cymru ym mis Medi 2018, roedd 96 y cant o'r cartrefi a'r busnesau mewn ardaloedd lle roedd cysylltiad band eang sefydlog cyflym iawn (30Mbit/e neu'n uwch) neu gysylltiad band eang sefydlog gwibgyswllt (300 Mbit/e neu'n uwch)[56] ar gael, yn amrywio o 85 y cant yn Sir Fynwy i 98 y cant yng Nghaerdydd. Roedd 34 y cant o'r cartrefi a'r busnesau yn gallu cael cysylltiad band eang sefydlog gwibgyswllt, yn amrywio o 1 y cant ym Mlaenau Gwent i 78 y cant yng Nghaerdydd. Roedd y ffigur rhanbarthol 15 pwynt canran yn is na'r ffigur ar gyfer y DU, sef 49 y cant.

Roed gwasanaethau ffeibr llawn[57] ar gael i 4 y cant o'r cartrefi a'r busnesau ledled y rhanbarth; roedd hyn yn is nag yn y rhanbarthau eraill yng Nghymru. Mae band eang ffeibr llawn yn defnyddio ceblau ffeibr optig i gysylltu cartrefi a busnesau â'r cabinet ar y stryd, yn lle cysylltiadau copr. Mae cysylltiadau ffeibr optig yn darparu gwasanaeth gwell a mwy dibynadwy a all gynnig cyflymder hyd at un gigabit yr eiliad.

[56] Y Swyddfa Gyfathrebu: Cysylltu'r Gwledydd 2018
[57] Y Swyddfa Gyfathrebu: Creu dyfodol ffibr-llawn


**Ffigur 26: Canran y cartrefi a'r busnesau yn Ne-ddwyrain Cymru nad oeddent yn bodloni gofynion y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2018**




Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Nid oedd tua 8,900 o gartrefi a busnesau ledled y rhanbarth, neu 1 y cant, yn bodloni gofynion sylfaenol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, ym mis Medi 2018, sy'n golygu nad oeddent yn gallu manteisio ar gyflymder lawrlwytho o 10Mbit/e na chyflymder lanlwytho o 1Mbit/e. Roedd y gyfran hon yn is na chyfartaledd y DU (2 y cant) a Chymru (3 y cant).

**Ffigur 27: Canran y cartrefi a'r busnesau yn Ne-ddwyrain Cymru a allai gael signal 4G dan do gan bob un o'r pedwar darparwr rhwydwaith, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2018**





Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Gan edrych ar wasanaethau 4G, roedd canran y cartrefi a'r busnesau yn Ne-ddwyrain Cymru a oedd yn cael signal dan do gan bob un o'r pedwar gweithredwr ym mis Medi 2018 yn amrywio o 65 y cant ym Mro Morgannwg i 85 y cant yng Nghasnewydd a Chaerffili. Cyfartaledd y DU oedd 77 y cant a chyfartaledd Cymru oedd 69 y cant.

O ran cwmpas daearyddol, nid oedd 7 y cant o arwynebedd Sir Fynwy yn cael ei wasanaethu gan unrhyw weithredwr, sy'n fwy nag mewn unrhyw awdurdod lleol arall yn y rhanbarth. Mewn saith o'r 10 awdurdod lleol yn y rhanbarth, roedd 1 y cant neu lai o'r ardal ddaearyddol heb wasanaeth.

**Ffigur 28: Canran y cartrefi a'r busnesau yn Ne-ddwyrain Cymru a allai gael gwasanaeth galwadau llais dan do gan bob un o'r pedwar darparwr rhwydwaith, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2018**





Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Ar gyfer gwasanaethau galwadau ffôn yn y rhanbarth, roedd canran y cartrefi a'r busnesau a oedd yn cael signal dan do gan bob un o'r pedwar gweithredwr ym mis Medi 2018 yn amrywio o 85 y cant yn Sir Fynwy i 99 y cant ym Merthyr Tudful.

Roedd cyfran ardal ddaearyddol De-ddwyrain Cymru nad oedd yn cael ei gwasanaethu gan unrhyw weithredwr yn 1 y cant neu'n is ym mhob awdurdod lleol, ac eithrio Sir Fynwy (3 y cant).

## Tai

**Ffigur 29: Amcangyfrifon o'r stoc anheddau yn Ne-ddwyrain Cymru dros amser (pob deiliadaeth)**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon Stoc Annedd, Llywodraeth Cymru

Mae cyfanswm yr anheddau[58] yn Ne-dwyrain Cymru yn parhau i gynyddu'n raddol ac amcangyfrifir bod 668,200 o anheddau ar 31 Mawrth 2017. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 6 y cant dros y 10 mlynedd diwethaf. Roedd gan Gaerdydd, sef yr awdurdod lleol â'r nifer fwyaf o anheddau, fwy o anheddau na Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy gyda'i gilydd. Roedd 14 y cant o'r holl anheddau ledled y rhanbarth yn cael eu rhentu'n breifat ac roedd 69 y cant yn eiddo i berchen-feddianwyr.


[58] StatsWales: Amcangyfrifon o'r stoc anheddau yn ôl awdurdod lleol a deiliadaeth

**Ffigur 30: Nifer y fflatiau a'r cartrefi newydd a gwblhawyd yn Ne-ddwyrain Cymru dros amser**




Ffynhonnell: Casglu data: adeiladu tai newydd, Llywodraeth Cymru

**Ffigur 31: Nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd yn Ne-ddwyrain Cymru dros amser, yn ôl deiliadaeth**





Ffynhonnell: Casglu data: adeiladu tai newydd, Llywodraeth Cymru[59]

Ledled y rhanbarth, cwblhawyd 3,753 o anheddau newydd[60] yn ystod 2017-18. Mae'r ffigur hwn 17 y cant yn llai na 10 mlynedd ynghynt ac 14 y cant yn llai nag 20 mlynedd ynghynt. Yng Nghasnewydd y cwblhawyd y nifer fwyaf o anheddau newydd yn 2017-18 (sef 856, neu 23 y cant) tra ym Mlaenau Gwent y cwblhawyd y nifer leiaf o anheddau (sef 50, neu 1 y cant).

[59] Daw'r ffigurau a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a'r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai o gofnodion a gedwir at ddibenion rheoli adeiladu.Weithiau, mae'n anodd i swyddogion rheoli adeiladu nodi a yw annedd yn cael ei hadeiladu ar gyfer Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu ddatblygwr preifat, a all arwain at dangyfrif nifer y tai newydd sy'n cael eu hadeiladu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a gorgyfrif nifer y tai ar gyfer y sector preifat.
[60] StatsCymru: Anheddau newydd a gwblhawyd yn ôl ardal, y math o amnedd a nifer yr ystafelloedd gwely

Dengys data o Fynegai Prisiau Tai'r DU[61, 62], yn Ne-ddwyrain Cymru ym mis Medi 2018, fod prisiau tai cyfartalog yn amrywio o £89,900 ym Mlaenau Gwent i £268,000 yn Sir Fynwy. Yn yr awdurdodau hyn hefyd y gwelwyd y newidiadau absoliwt isaf ac uchaf mewn prisiau tai dros gyfnod o 10 mlynedd. Rhwng mis Medi 2008 a mis Medi 2018, cynyddodd prisiau tai £6,200 (neu 7.4 y cant) ym Mlaenau Gwent, a £67,300 (neu 33.6 y cant) yn Sir Fynwy. Er mai yn Sir Fynwy y gwelwyd y newid mwyaf mewn prisiau eiddo gwirioneddol, cofnododd Caerdydd gynnydd canrannol ychydig yn uwch dros y cyfnod hwn, sef 33.9 y cant.

**Ffigur 32: Cyfartaledd amcangyfrifon blynyddol o'r angen am dai ychwanegol (De-ddwyrain Cymru)**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon o'r angen am dai ar lefel cenedlaethol a rhanbarthol (ar sail data 2018)

Dengys amcangyfrifon o'r angen am dai[63], ar gyfer y pum mlynedd gyntaf (2018/19-2022/23), fod angen rhwng 4,100 a 5,300 o unedau tai ychwanegol yn flynyddol yn Ne-ddwyrain Cymru (gydag amcangyfrif canolog o 4,700). Yn ystod y trydydd cyfnod (2028/29-2032/33), mae'r amcangyfrif canolog yn syrthio i 3,300 ac o ganol yr 2030au i'w diwedd (2033/34-2037/38) yr amcangyfrif canolog yw 2,500 o unedau tai ychwanegol. Mae hyn yn adlewyrchu arafu yn yr amcanestyniadau twf aelwydydd o amcanestyniadau seiliedig ar ffigurau 2014. Noder y bydd amcangyfrifon o'r angen am dai yn ôl deiliadaeth (tai'r farchnad a thai fforddiadwy) ar lefel ranbarthol yn cael eu cyhoeddi'n fuan ar ein gwefan[64].

[61] Cofrestrfa Tir EM: Mynegai Prisiau Tai'r DU (Saesneg yn unig)
[62] Roedd y data yn gywir adeg cyhoeddi Mynegai Prisiau Tai'r DU ym mis Rhagfyr 2018. Mae Mynegai Prisiau Tai'r DU yn fynegai wedi'i addasu yn ôl y cymysgedd, sy'n golygu ei fod wedi'i bwysoli er mwyn adlewyrchu'r cymysgedd gwirioneddol o eiddo a werthwyd yn y flwyddyn flaenorol. Cyhoeddir Mynegai Prisiau Tai'r DU bob mis. Mae'r holl ffigurau ym Mynegai Prisiau Tai'r DU yn agored i'w diwygio am hyd at 12 mis.
[63] Llywodraeth Cymru: Angen a'r galw am dai (sail-2018)
[64] Llywodraeth Cymru: Angen a'r galw am dai

Dengys amcanestyniadau aelwydydd seiliedig ar 2014[65], erbyn 2028, y gallai fod tua 232,500 o aelwydydd un person yn Ne-ddwyrain Cymru, sef cynnydd o 13 y cant o gymharu â'r lefel ragamcanol ar gyfer 2018. Erbyn 2039, y nifer ragamcanol yw 258,500, y byddai 30 y cant ohono yng Nghaerdydd.


Mae maint cyfartalog rhagamcanol aelwyd yn Ne-ddwyrain Cymru yn 2028 yn amrywio o 2.16 ym Mlaenau Gwent i 2.36 ym Merthyr Tudful, sef yr amcanestyniad uchaf ar gyfer awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer y cyfnod hwn. Dylid nodi bod y data hyn yn amcanestyniadau sy'n seiliedig ar dueddiadau yn y gorffennol ac ni ddylid eu trin fel rhagolygon.

Amcangyfrifodd yr awdurdodau lleol[66] fod 170 o bobl yn cysgu ar y stryd ledled De-ddwyrain Cymru yn y pythefnos rhwng 16 a 29 Hydref 2017. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 4 y cant (saith unigolyn) o gymharu â'r ymarfer a gynhaliwyd ym mis Hydref 2016. Roedd dros hanner y bobl a oedd yn cysgu ar y stryd yn y rhanbarth wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, tra amcangyfrifodd Blaenau Gwent, Torfaen a Bro Morgannwg nad oedd unrhyw un yn cysgu ar y stryd yn eu hardaloedd.

[65] StatsCymru: Amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer awdurdod lleol, math o aelwyd a blwyddyn
[66] StatsCymru: Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd yn ôl ardal awdurdod lleol

## Diwylliant a Threftadaeth

### Ffigur 33: Safleoedd Treftadaeth y Byd ac Adeiladau Rhestredig yn Ne-ddwyrain Cymru




Ffynhonnell: Cadw

Yn ogystal â'i hadeiladau rhestredig, mae 1 o safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO wedi'i leoli yn Ne-ddwyrain Cymru, sef: Tirwedd ddiwydiannol Blaenafon.

Cafodd De-ddwyrain Cymru 42 miliwn o Ymweliadau Dydd gan Dwristiaid[67] yn 2017, a arweinodd at gyfanswm gwariant o £1.6 biliwn. Hon oedd y nifer fwyaf o ymweliadau, a'r lefel uchaf o wariant, yng Nghymru, ond nid oedd cystal â'r ffigurau a gofnodwyd ar gyfer unrhyw un o ranbarthau Lloegr.

Dengys Arolwg Deiliadaeth Llety Twristiaeth Cymru[68] mai De-ddwyrain Cymru oedd â'r gyfradd uchaf yng Nghymru ar gyfer defnydd ystafelloedd mewn gwestai [69] yn 2017 (sef 73 y cant), er bod y gwahaniaeth mwyaf mewn cyfraddau defnydd ystafelloedd a gwelyau wedi'i gofnodi yn y rhanbarth hwn hefyd, lle y gallai defnydd ystafelloedd sengl adlewychu, o bosibl, ddefnydd busnes uwch yn yr ardal hon, h.y. gwestai yng Nghaerdydd yn cael eu defnyddio ar gyfer busnes.

Wrth ystyried nifer yr ymweliadau ag atyniadau twristiaeth yng Nghymru[70] yn 2017, roedd 2 o'r 10 atyniad mwyaf poblogaidd â thâl mynediad yn Ne-ddwyrain Cymru, sef: Castell Caerdydd a Techniquest. Dros yr un cyfnod, roedd 4 o'r 10 atyniad mwyaf poblogaidd sydd am ddim yn Ne-ddwyrain Cymru, sef: Canolfan Mileniwm Cymru, Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Chanolfan Ymwelwyr Caerdydd.

---

67 Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr (2017)
68 Llywodraeth Cymru: Arolygon deiliadaeth llety twristiaeth Cymru (2017)
69 Y gyfradd defnydd ystafelloedd yw nifer yr ystafelloedd gwely a ddefnyddir dros gyfnod penodol fel cyfran o gyfanswm yr ystafelloedd gwely sydd ar gael. Cyfradd defnydd gwelyau yw nifer y gwelyau a ddefnyddiwyd dros gyfnod penodol fel cyfran o gyfanswm y gwelyau a oedd ar gael.
70 Llywodraeth Cymru: Ymweliadau ag atyniadau twristiaeth

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

### Perthnasedd

Mae'r cyhoeddiad hwn yn gompendiwm o ystadegau allweddol ar naw pwnc gwahanol. Felly, mae'n dwyn ynghyd ddata sydd eisoes wedi'u cyhoeddi ar wahanol lefelau daearyddol (e.e. Cymru, lefel awdurdod lleol). Lle y bo'n bosibl ac yn briodol, darparwyd data ar lefel ranbarthol er mwyn rhoi rhagor o gyd-destun ynglŷn â gwahaniaethau rhanbarthol a allai fodoli yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth am ffynonellau data penodol yn y datganiadau unigol, y cyfeirir atynt yn y troednodiadau.

Lluniwyd y cyhoeddiad hwn i ddechrau er mwyn helpu timau polisi cymorth o fewn Llywodraeth Cymru i baratoi a drafftio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol[71]. Fodd bynnag, rhagwelwn y bydd cyhoeddiad hwn, oherwydd ei gwmpas, yn ddefnyddiol i eraill. Rhagwelir y caiff y cyhoeddiad hwn ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill â diddordeb rhanbarthol a'r cyhoedd, er mwyn (i) cael trosolwg o'r data a gesglir ar gyfer Cymru a'i hawdurdodau lleol a'i rhanbarthau ar bob un o'r pynciau a (ii) deall gwahaniaethau a allai fodoli rhwng rhanbarthau Cymru. Gall defnyddwyr â diddordeb arbennig mewn un neu fwy o'r pynciau yn yr adroddiad hwn weld amrywiaeth ehangach o ystadegau a data ar StatsCymru[72].

### Cywirdeb

Daw'r ystadegau a geir yn y datganiad hwn o ffynonellau ystadegau swyddogol, er nad ydynt i gyd wedi cael eu dosbarthu'n Ystadegau Cenedlaethol. Ceir rhagor o wybodaeth am ystadegau swyddogol ac Ystadegau Gwladol ar wefan Awdurdod Ystadegau'r DU[73]. Ceir gwybodaeth am ansawdd pob un o'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y datganiadau unigol, y cyfeirir atynt yn y troednodiadau, neu yn yr adroddiadau ansawdd sy'n ategu'r datganiadau hyn.

Oherwydd y nifer fawr o ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn a'r amser a gymerwyd i'w lunio, mae data mwy diweddar wedi'u cyhoeddi ar gyfer rhai ffynonellau. Y data hyn oedd y diweddaraf ar gael ar 11/01/2019, er bod diwygiadau wedi'u gwneud i ffynonellau data, fel yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a pherfformiad twristiaeth Cymru. Mae datganiadau mis Ionawr i fis Mehefin 2018 wedi'u hystyried. Mae data cyfredol ar gael drwy ddilyn y dolenni i ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y troednodiadau.

Ni fwriadwn ddiweddaru'r adroddiad hwn yn rheolaidd. Fodd bynnag, yn y dyfodol, bydd data ar gael ar StatsCymru ac mewn dangosfyrddau, a chânt eu diweddaru wrth i ddata newydd gael eu cyhoeddi, gan sicrhau bod defnyddwyr bob amser yn cael y data diweddaraf.

71 Llywodraeth Cymru: Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru
72 Gwefan StatsCymru
73 Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig: mathau o ystadegau swyddogol (Saesneg yn unig)

### Amseroldeb a phrydlondeb

Lluniwyd y cyhoeddiad hwn i gyd-fynd â'r broses o ddrafftio a chyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Oherwydd y nifer fawr o ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn a'r amser a gymerwyd i'w lunio, mae data mwy diweddar wedi'u cyhoeddi ar gyfer rhai ffynonellau. Y data hyn oedd y diweddaraf ar gael ar 11/01/2019.

### Hygyrchedd ac eglurder

Gall defnyddwyr weld yr holl ddata a geir yn y datganiad hwn drwy ddilyn y dolenni a nodir yn y troednodiadau. Mae'r mwyafrif o'r data sy'n sail i'r adroddiad hwn, gan gynnwys dadansoddiadau llawer mwy manwl, ar gael ar StatsCymru a thrwy wasanaethau data agored StatsCymru. Mae gwybodaeth am ansawdd a metadata ar gyfer pob un o'r ffynonellau hyn hefyd ar gael drwy ddilyn y dolenni hyn.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar hyn o bryd mewn fformat PDF y gellir ei argraffu, ond yn y dyfodol, cyhoeddir data fel adroddiadau ar-lein rhyngweithiol er mwyn sicrhau'r lefel uchaf posibl o effaith ac effeithlonrwydd gan ddefnyddio gwasanaethau data agored Llywodraeth Cymru.

### Cymaroldeb a chydlyniaeth

Lle mae setiau data gwahanol wedi'u defnyddio i drafod yr un pwnc (er enghraifft yn yr adran ar ystadegau sy'n ymwneud â'r Gymraeg), rhoddir esboniad o gryfderau a chyfyngiadau pob un o'r ffynonellau hyn, a'r gydlyniaeth rhyngddynt, gyda rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu yn y ffynonellau a'r dolenni.

Lle y bo'n bosibl, mae Ystadegau Gwladol wedi'u defnyddio er mwyn sicrhau bod y data o ansawdd uchel a'u bod yn gyson ag ystadegau ar y pynciau a allai gael eu defnyddio at ddibenion eraill. Ceir rhagor o wybodaeth am gymharedd a chydlyniaeth pob un o'r ffynonellau yn y ffynonellau y mae dolenni iddynt wedi'u nodi yn y troednodiadau.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlCD)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Mae rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn: https://llyw.cymru/ystadegau-cryno-ar-gyfer-rhanbarthau-economegol-2019

## Dolenni cysylltiedig eraill

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

## Diweddariad nesaf

Mae'r cyhoeddiad hwn yn ddatganiad untro ac ni chaiff ei ddiweddaru. Fodd bynnag, darperir data yn y dyfodol mewn fformat dangosfwrdd a chânt eu diweddaru wrth i ddata newydd ddod ar gael.

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at desg.ystadegau@llyw.cymru.

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir fel arall.